**Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17:**
**Cefndir i'r cwestiynau**

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rhesymau dros ddewis pob cwestiwn yn Arolwg Cenedlaethol 2016-17. Dylai hefyd helpu defnyddwyr i ddeall pam fod pob cwestiwn yn cael ei eirio yn y ffordd benodol honno. Gallwch glicio ar enw (y golofn ar y chwith) i agor yr holiadur ar y cwestiwn hwnnw.

Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru yn ôl y drefn y maent yn ymddangos yn yr holiadur, ac yn cael eu gosod mewn grwpiau ar sail testun.

| Enw | Testun | Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau |
|---|---|---|
| C4 | Gweinyddol | Pennu nifer y bobl sy'n byw yn y cartref, er mwyn ein helpu i ddeall cyfansoddiad cartrefi Cymru, ac i'n helpu i gyfeirio at gwestiynau eraill yn yr arolwg. |
| QBNames1-8 | Gweinyddol | Mae enwau holl aelodau'r cartref yn cael eu cofnodi er mwyn helpu i gyfeirio at gwestiynau eraill a llenwi bylchau yn nes ymlaen yn yr arolwg. |
| Gender, DteofBth, AgeIf | Rhyw, oed | Mae'r arolwg yn holi am ryw a dyddiad geni/oedran pob aelod o'r cartref er mwyn i ni fedru edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, oes gan bobl o wahanol oedrannau farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus?<br><br>Mae'r cwestiynau hefyd yn cael eu defnyddio i gyfeirio a llenwi bylchau (hynny yw cyfeirio at aelod o'r teulu wrth ei enw, neu 'ef' neu 'hi' fel sy'n briodol) mewn cwestiynau yn nes ymlaen yn yr arolwg.<br><br>Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |
| HallRes | Neuaddau preswyl | Mae'r arolwg yn gofyn am bob aelod o'r teulu yn ei dro a yw'n byw mewn neuadd breswyl neu ysgol breswyl ar hyn o bryd. Mae hyn er mwyn pennu union nifer y bobl sy'n byw yn y cyfeiriad hwn yn barhaol. |
| HH4_6FtEd, HH16_19FtEd | Addysg llawn-amser | Gofynnir a yw plant 4-6 oed neu 6-19 oed mewn addysg llawn-amser er mwyn i'r rhai sy'n ymateb gael eu cyfeirio'n gywir at gwestiynau am ysgolion cynradd ac uwchradd. |
| MarStat, | Statws | Mae'r cwestiynau hyn yn cadarnhau a yw'r ymatebydd yn briod neu'n cydfyw gydag aelod arall |

| | | |
|---|---|---|
| MarChk, LivWith | priodasol | o'r cartref. Mae hyn yn helpu i lenwi bylchau mewn cwestiynau diweddarach, sy'n holi am yr ymatebydd, yr ymatebydd a'i bartner, neu'r cartref cyfan. |
| SelPerson, C5b, C5c, PGName, PGRel, PGO | Ymatebydd a ddewiswyd | Mae SelPerson yn cofnodi pa aelod o'r cartref fydd yn ateb gweddill yr arolwg. Os yw'r ymatebydd yn 16 neu 17 oed, gofynnir y cwestiynau eraill i gael caniatâd y rhieni/gwarcheidwaid iddynt gymryd rhan. |
| RelResp | Grid perthynas y cartref | Holi am berthynas pob aelod o'r cartref â'i gilydd er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am gyfansoddiad y cartrefi. Mae'r atebion i'r cwestiwn hwn hefyd yn cael eu defnyddio i gyfeirio at fodiwlau penodol yn ddiweddarach, ee am blant dibynnol. |
| GrdChk | Gwarcheidwad cyfreithiol | Gofynnir y cwestiynau am ysgolion cynradd ac uwchradd, ac adrannau eraill yn ymwneud â phlant (ee amser o flaen sgrin, deiet ac ymarfer corff) i rieni a gwarcheidwaid plant sy'n byw yn y cartref. Mae'r cwestiwn hwn yn holi os yw'r ymatebydd yn warcheidwad cyfreithiol dros unrhyw blant yn y cartref, rhag ofn nad yw hyn wedi'i nodi yn y grid perthynas. |
| NatIdWel, NatIdEng, NatIdScot, NatIdNI, NatIdBrit, NatIdOth, NatIdOT, NatIdDk, NatIdRef | Hunaniaeth Genedlaethol | Mae hunaniaeth genedlaethol, a gwybodaeth ddemograffig arall, yn cael eu cynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, oes gan wahanol grwpiau o bobl wahanol farn am wasanaethau cyhoeddus?<br><br>Nid yw'r cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw fodd. |
| Ethnicity, EthnWhOT, EthnMxOT, EthnAsOT, EthnBlkOT, EthnOthOT, EthnDK, EthnRef | Ethnigrwydd | Mae ethnigrwydd, a gwybodaeth ddemograffig arall, yn cael eu cynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, oes gan wahanol grwpiau o bobl wahanol farn am wasanaethau cyhoeddus?<br><br>Nid yw'r cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw fodd. |

| | | |
|---|---|---|
| EconStat, Hours, WkingHH | Statws Economaidd | Gofynnir y cwestiynau hyn i weld os yw pobl yn gyflogedig neu'n cael hyfforddiant, sawl awr maen nhw'n gweithio, ac a oes unrhyw un arall yn y cartref yn gyflogedig. Mae'r wybodaeth yn ddefnyddiol ar gyfer traws-ddadansoddi. Er enghraifft, oes gan wahanol grwpiau o bobl wahanol farn am wasanaethau cyhoeddus?<br><br>Nid yw'r cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw fodd. |
| Educat | Cymwysterau | Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn am gymhwyster uchaf yr ymatebydd. Mae wedi'i gynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, oes gan wahanol grwpiau o bobl wahanol farn am wasanaethau cyhoeddus?<br><br>Nid yw'r cwestiwn hwn yn cael ei ddefnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw fodd. |
| Tenure, ResTme | Deiliadaeth | Mae'r cwestiwn hwn yn cadarnhau statws deiliadaeth yr ymatebydd (ee perchennog y cartref neu fyw yno ar rent), a pha mor hir mae wedi byw yn y cyfeiriad presennol. Maent wedi'u cynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |
| CarUse | Defnyddio car | Mae'r cwestiwn yn gofyn a ydi'r ymatebydd/cartref yn defnyddio car neu fan yn rheolaidd. Mae medru defnyddio cyfleusterau a chyrraedd at lefydd sydd angen i chi fynd yn elfen bwysig o lesiant. Defnyddir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar y cyd ag atebion eraill er mwyn datblygu polisïau yn ymwneud â lles. Mae gwybod a ydi pobl yn medru defnyddio car hefyd yn ddefnyddiol wrth ddadansoddi canlyniadau'r arolwg fesul ardal ddaearyddol. |
| WelUndSpk,<br>WelSpk<br>WelRead<br>WelWrite<br>WelAbSpk<br>WelFrqSpk | Y Gymraeg | Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn am allu'r ymatebydd i siarad Cymraeg, pa mor rhugl, a pha mor aml mae'n defnyddio'r iaith. Mae Llywodraeth Cymru, drwy Strategaeth y Gymraeg, yn ceisio hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Mae'r cwestiynau'n rhoi mwy o fanylder na'r hyn sydd ar gael o ffynonellau eraill (fel y Cyfrifiad).<br><br>Mae'r cwestiynau yn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl, ee siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg. Nid yw'r cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw fodd. |

| | | |
|---|---|---|
| WbSatLife, WbLifeWrth, WbHapYest, WbAnxYest, TrustMost, JobSat | Llesiant | Mae'r adran hon yn holi am elfennau o lesiant yr ymatebydd, ee boddhad gyda bywyd. Hoffai Llywodraeth Cymru wybod am lesiant pobl Cymru, er mwyn cymryd camau i helpu i wella llesiant pawb.<br><br>Mae cwestiynau ynghylch llesiant hefyd wedi'u cynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl, ee a yw llesiant yn effeithio ar farn pobl am wasanaethau cyhoeddus. |
| LaOvSat, LaBelong LaDifBgrnd LaRespCons | Teimladau pobl am eu hardal leol | Mae'r cwestiynau hyn ynghylch boddhad pobl gyda'u hardal leol, a ydynt yn teimlo eu bod yn perthyn, a'u barn am bobl eraill sy'n byw yno.<br><br>Defnyddir y cwestiynau hyn i fonitro Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Gydlyniant Cymunedol, ac i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| SfAreaDark, SfHmDark, SfPTDark, SfCarDark | Diogelwch Cymunedol | Mae'r adran hon yn edrych ar ganfyddiadau ynghylch diogelwch mewn amrywiol sefyllfaoedd, ee cerdded heb gwmni ar ôl iddi dywyllu.<br><br>Mae teimlo'n ddiogel yn elfen allweddol o lesiant, ac fe fydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| VolType, VolTime, CarerHrs | Gwirfoddoli / gofalu | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod a yw pobl Cymru'n gwirfoddoli, naill ai'n ffurfiol (clybiau a sefydliadau) neu'n anffurfiol (gofalu am deulu, ffrindiau neu gymdogion).<br><br>Mae gwirfoddoli'n elfen o lesiant, ac fe fydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| UaQualServ, UaComPerf, UaQualArea, UaInfDecs | Gwasanaethau Awdurdodau Lleol | Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yng nghanfyddiadau pobl ynghylch eu hawdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys pa mor llwyddiannus y mae'r awdurdodau lleol yn cysylltu gyda'r cyhoedd. Felly, hoffai Llywodraeth Cymru wybod a yw aelodau o'r cyhoedd yn teimlo eu bod yn medru cyfathrebu gyda'u hawdurdodau lleol i roi eu barn a chael gwrandawiad. Mae'r wybodaeth hon yn arbennig o bwysig ar adeg pan fo pwysau ar gyllidebau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd UaInfDecs – a yw pobl yn teimlo eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch eu hardaloedd lleol – yn cael ei ddefnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| LocCouCont, LocCounKnow, LocCouSat | Cynghorwyr Lleol | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod beth yw barn pobl am eu cynghorwyr lleol. Mae hyn yn cynnwys eu canfyddiadau ynghylch pa mor dda mae cynghorwyr lleol yn ymwneud â'r cyhoedd. |
| PsChildAtt, PsWhich, PsFeePay | Ysgolion Cynradd | Gofynnir y cwestiynau hyn i rieni i weld a yw eu plant yn mynychu ysgol gynradd ac, os felly, pa ysgol. Bydd y sylwadau'n cael eu defnyddio gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn Llywodraeth Cymru. Rydym yn canolbwyntio ar ysgolion sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru (drwy awdurdodau lleol). Felly gofynnir y cwestiynau dilynol os oedd/yw'r plentyn yn mynychu ysgol wedi'i hariannu gan y wladwriaeth.<br><br>Gofynnir PsWhich er mwyn cymharu boddhad rhieni gyda data eraill am berfformiad ysgol (ee archwiliadau Estyn, canlyniadau arholiadau). Nid yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion.<br><br>Os oes mwy nag un plentyn oed cynradd yn y cartref, caiff un plentyn ei ddewis ar hap, ac ni fydd y cwestiynau'n cael eu hailadrodd ar gyfer y plant eraill. Y bwriad yw cyflymu'r cyfweliad ac atal yr ymatebydd rhag diflasu. |
| AtPsModeTrav | Teithio Llesol (plant) | Mae Bil Teithio Llesol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol barhau i wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr, ac ystyried cerddwyr a beicwyr ym mhob datblygiad yn ymwneud â ffyrdd yn y dyfodol.<br><br>Mae'r cwestiwn hwn yn holi sut mae plentyn yr ymatebydd yn teithio i'r ysgol gynradd. Gofynnir hyn i fonitro'r cynnydd yn erbyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n annog pobl i gerdded/beicio fel rhan o'u bywyd bob dydd, ee oedolion yn teithio i'r gwaith neu blant yn teithio i'r ysgol. |
| PsSchSat | Boddhad rhieni gydag | Mae PsSchSat yn gofyn am foddhad rhieni gydag ysgol gynradd y plant. Bydd boddhad gyda'r ysgol yn cael ei ddadansoddi wrth ochr ffynonellau data eraill (adroddiadau archwiliadau, |

| | | |
|---|---|---|
| | ysgolion cynradd | canlyniadau arholiadau ac ati) er mwyn i adran addysg Llywodraeth Cymru gael asesiad ehangach o ansawdd gwasanaethau addysg Cymru. |
| PsNum, PsLet, PsERead, PsEWrite, PsWRead, PsWWrite, PsMaths | Cymorth rhieni gyda llythrennedd a rhifedd plant | Mae'r adran hon yn edrych ar deimladau rhieni ynghylch helpu eu plant â llythrennedd a rhifedd. Bydd y canlyniadau yn bwydo i mewn i Gynllun Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru, y Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol. |
| SsChildAtt, SsWhich, SsFeePay | Ysgolion Uwchradd | Gofynnir y cwestiynau hyn i rieni i weld a yw eu plant yn mynychu ysgol uwchradd ac, os felly, pa ysgol . Bydd y sylwadau'n cael eu defnyddio gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn Llywodraeth Cymru. Rydym yn canolbwyntio ar ysgolion sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru (drwy awdurdodau lleol). Felly gofynnir y cwestiynau dilynol os oedd/yw'r plentyn yn mynychu ysgol wedi'i hariannu gan y wladwriaeth.<br><br>Gofynnir SsWhich er mwyn cymharu boddhad rhieni gyda data eraill am berfformiad ysgol (ee archwiliadau Estyn, canlyniadau arholiadau). Nid yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion.<br><br>Os oes mwy nag un plentyn oed uwchradd yn y cartref, caiff un plentyn ei ddewis ar hap, ac ni fydd y cwestiynau'n cael eu hailadrodd ar gyfer y plant eraill. Y bwriad yw cyflymu'r cyfweliad ac atal yr ymatebydd rhag diflasu. |
| AtSsModeTrav | Teithio Llesol (plant) | Gofynnir y cwestiwn hwn i fonitro'r cynnydd yn erbyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n annog pobl i gerdded/beicio fel rhan o'u bywyd bob dydd, ee oedolion yn teithio i'r gwaith neu blant yn teithio i'r ysgol. |
| SsSchSat | Boddhad rhieni gydag ysgolion uwchradd | Mae SsSchSat yn gofyn am foddhad rhieni gydag ysgol y plant . Bydd boddhad gyda'r ysgol yn cael ei ddadansoddi wrth ochr ffynonellau data eraill (adroddiadau archwiliadau, canlyniadau arholiadau ac ati) er mwyn i adran addysg Llywodraeth Cymru gael asesiad ehangach o ansawdd gwasanaethau addysg Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| CCEver, CCFR, CCSatInc, CCSatHrs, CCSatHol, CCSatASch, CCSatWL, CCSatQual | Gofal plant | Mae'r adran hon yn gofyn a yw rhieni'n defnyddio gofal plant am dâl, neu am ddim, ac am eu barn ar y gofal plant hwnnw. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r canlyniadau i helpu i ddatblygu polisi gofal plant.<br><br>Os oes mwy nag un plentyn 0-14 oed yn y cartref, bydd un plentyn yn cael ei ddewis ar hap fel testun y cwestiynau. Ni fydd y modiwl yn cael ei ailadrodd ar gyfer y plant cymwys eraill. Y bwriad yw cyflymu'r cyfweliad ac atal yr ymatebydd rhag diflasu. |
| IntHhHave, IntBB, IntBBTyp, IntBBTypOth, IntSpdSat, IntPersUse, IntFrqAcc, IntWL, IntSocTyp | Rhyngrwyd | Gofynnir y cwestiynau hyn i weld sut mae pobl Cymru'n defnyddio'r rhyngrwyd ac a ydynt yn fodlon â'u cysylltiad â'r rhyngrwyd yn eu cartrefi.<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, byddant yn cael eu defnyddio i weld pa grwpiau sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd; ac i ddeall y defnydd o fand eang cyflym iawn. |
| IntGovUse, IntGovSat, IntGovTr, IntGovTrEase, IntGovTrXUse | Gwefannau gwasanaethau cyhoeddus | Mae mwy nag erioed o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu ar-lein. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn clywed a yw pobl yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein, a'u barn amdanynt. |
| GenHealth | Iechyd Cyffredinol | Mae'r cwestiwn hwn yn holi am asesiad pobl ynghylch eu hiechyd cyffredinol eu hunain. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer amrywiol gynlluniau cyflawni iechyd, ac mae hefyd yn cael ei defnyddio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Hefyd mae'r cwestiynau wedi'u cynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, gall statws iechyd pobl effeithio ar eu canfyddiadau am wasanaethau cyhoeddus. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nid yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion. |
| Pregnant | Beichiogrwydd | Angenrheidiol er mwyn sicrhau bod menywod beichiog yn cael eu heithrio o'r cyfrifon Mynegai Màs y Corff. |
| HtImpMet, HtMet, HtImp, WtImpMet, WtMet, WtImp | BMI | Gofynnir am daldra a phwysau'r ymatebydd er mwyn asesu lefelau pwysau iach a gordewdra.<br><br>Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau bywyd iach yn ddangosydd cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd ymysg pethau eraill. |
| LongIll, LongIllLimit | Afiechydon / cyflyrau hirdymor | Mae LongIll a LongIllLimit yn gofyn a yw'r ymatebydd yn dioddef o unrhyw afiechydon neu gyflyrau hirdymor, ac os felly, a ydynt yn cyfyngu ar eu gweithgarwch o ddydd i ddydd. Mae gan nifer o bobl o leiaf un afiechyd hirdymor, ac mae mwy nag un afiechyd hefyd yn beth cyffredin. Mae lefelau'r gwahanol afiechydon o fewn y boblogaeth a'r ffordd y maent yn newid o ddiddordeb.<br><br>Fel GenHealth, mae'r wybodaeth hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer amrywiol gynlluniau cyflawni iechyd, ac mae hefyd yn cael ei defnyddio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Hefyd mae'r cwestiynau wedi'u cynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, oes gan bobl ag anableddau wahanol brofiadau/barn am wasanaethau cyhoeddus?<br><br>Nid yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion.<br><br>Mae'r cwestiynau yn gwestiynau ONS wedi'u cysoni, felly gellir cymharu'r canlyniadau'n eang gyda rhai arolygon eraill y llywodraeth. |
| Disab1-6, DisabLimit1-6, DisabAnoth1-5 | Anabledd / afiechyd | Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn am yr afiechydon / anableddau penodol y mae'r ymatebydd yn dioddef ohonynt, ac a yw bob un yn cyfyngu ar weithgarwch o ddydd i ddydd. Mae'r canlyniadau yn rhoi mwy o gyd-destun/manylion ar gyfer deall atebion LongIll a LongIllLimit. |

| | | |
|---|---|---|
| PCPHave, PCPHlp | Cynllun gofal personol | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod a yw pobl â chyflyrau cyfyngus hirdymor yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am gymorth a chefnogaeth sydd ei angen arnynt, ac a ydynt yn teimlo eu bod yn cael digon o gymorth. |
| LBus, LBusMuch, DBus, DBusMuch, LTrain, LTraMuch, DTrain, DTraMuch, Taxi, TaxiMuch, TrLBus1, TrLBusOt1, TrDBus1, TrDBusOt1, TrLTra1, TrLTraOt1, TrDTra1, TrDTraOt1, TrTax1, TrTaxOt1 | Anabledd – Trafnidiaeth gyhoeddus | Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn dysgu mwy am fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl -a oes modd iddyn nhw ddefnyddio trenau, bysiau a thacsis cymaint ag y byddent yn dymuno, ac os na, beth sy'n eu rhwystro rhag gwneud hynny.<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol (2013).<br><br>Nid yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion. |
| IntoBld, ThruBld, FacBld, WhichBld, WhBldOth, BldAccPr, ASOth | Anabledd - Gwasanaethau Lleol | Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys i ddysgu mwy am fynediad at wasanaethau lleol i bobl anabl, er enghraifft a ydynt yn wynebu unrhyw anawsterau wrth fynd i adeiladau cyhoeddus amrywiol a/neu symud o gwmpas ynddynt.<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol (2013).<br><br>Nid yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i adnabod unigolion. |
| NhsChoices | Gwasanaethau | Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw pobl yn teimlo eu bod yn medru dewis yn gywir pa |

| | | |
|---|---|---|
| | iechyd lleol | wasanaeth iechyd i'w ddefnyddio pan yn sâl neu wedi anafu.<br><br>Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu'n bwydo i mewn i Ymgyrch Dewis Doeth Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau iechyd lleol fel fferyllfeydd ac optegwyr. |
| GpSeenDr, GpNSeenDr, GpUsedWL, GpWLWhy, GpAppoint, GpAppEase, GpKnewInfo, GpInfoNeed, GpDigResp, GPOverSat | Gwasanaethau meddyg teulu | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod beth yw barn pobl am y gwasanaethau meddyg teulu a dderbyniwyd, a yw pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau meddyg teulu cyfrwng Cymraeg os ydynt am wneud hynny, a yw pobl yn ei gweld yn hawdd cael apwyntiad addas ar eu cyfer, ac a ydynt yn fodlon gyda'r gofal y maent yn ei gael wrth ymweld â'r feddygfa.<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn allweddol ar gyfer deall sut mae GIG Cymru yn ei wneud a nodi meysydd lle gwelir perfformiad da neu lle bo angen newid. |
| HspHadApp, HspPatType, HspKnewInfo, HspDigResp, HspOverSat | Ysbytai | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod beth yw barn pobl am y gofal a gafwyd yn ysbytai'r GIG.<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn allweddol ar gyfer deall sut mae GIG Cymru yn ei wneud a nodi meysydd lle gwelir perfformiad da neu lle bo angen newid. |
| AmbContact, AmbFor, AmbSatTime, AmbSatSkill, AmbHsp, AmbXHspAgr, AmbXHspAdv, AmbOverSat | Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod am brofiadau pobl o'r gwasanaeth ambiwlans brys.<br><br>Ym mis Hydref 2015, newidiodd targedau amseroedd ymateb ambiwlansys Cymru. Gofynnir y cwestiynau hyn i helpu Llywodraeth Cymru i ddeall a yw canfyddiad pobl o'r gwasanaeth ambiwlans brys wedi newid hefyd. |
| SCPerf, SCUse, | Gwasanaethau gofal | Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn gweld a ydi pobl yn medru defnyddio'r holl wasanaethau gofal a chymorth sydd eu hangen arnynt, a'u barn am y gwasanaethau gofal cymdeithasol yng |

| | | |
|---|---|---|
| SCLive, SCCarer, SCFost, SCNeed, SCInvol, SCInfo, SCQual, SCPepRat, SCAllRat, SCAccom2, SCAccom | cymdeithasol | Nghymru.<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. |
| DeviceTmWd, DeviceTmWe, TvTmWd, TvTmWe, CActMon, CActTue, CActWed, CActThu, CActFri, CActSat, CActSun, CFruit, CVeg, CDCoke, CCoke | Amser o flaen sgrin, gweithgarwch corfforol a deiet plant | Hoffai Llywodraeth Cymru gael gwybod am ymddygiad a allai arwain at ordewdra ymysg plant. Gofynnir i'r rhieni faint o amser mae'r plentyn yn ei dreulio'n defnyddio dyfeisiau electronig neu'n gwylio'r teledu, faint o weithgarwch corfforol wnaeth y plentyn yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a pha mor aml mae'r plentyn yn bwyta ffrwythau a llysiau ac yn yfed diodydd pefriog.<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru, a gellid eu defnyddio i adolygu polisiau fel Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan a Newid am Oes. Gallai'r canlyniadau hefyd gael eu defnyddio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Os oes mwy nag un plentyn 3-17 oed yn y cartref, bydd un plentyn yn cael ei ddewis ar hap fel testun y cwestiynau. Ni fydd y modiwl yn cael ei ailadrodd ar gyfer y plant cymwys eraill. Y bwriad yw cyflymu'r cyfweliad ac atal yr ymatebydd rhag diflasu. |
| EyeFreq, EyeXReas, EyeXReasOth, EyeHelp, Eyesight | Gofal llygaid | Hoffai Llywodraeth Cymru gael gwybod am iechyd llygaid pobl Cymru, ac a yw pobl yn cael profion llygaid yn rheolaidd. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Cynllun Cyflawni Gofal Llygaid Llywodraeth Cymru, sy'n hyrwyddo profion llygaid rheolaidd.<br><br>Hefyd maent am wybod pa wasanaethau y byddai pobl yn eu defnyddio pe bai ganddynt |

| | | |
|---|---|---|
| | | broblem gyda'u llygaid ac angen sylw ar unwaith, ee poen neu gochni yn y llygad. Dyma ran o Ymgyrch Dewis Doeth Llywodraeth Cymru, i helpu pobl i gyrraedd at y gwasanaethau cywir pan yn sâl neu wedi anafu. |
| HearDiff, HearAid, HearAidDiff, NatTeeth | Clyw a dannedd | Mae'r cwestiynau hyn yn holi am y clyw ac iechyd y geg, dwy elfen bwysig o iechyd a lles cyffredinol. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau partner (gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, iechyd deintyddol cyhoeddus). |
| Veg1, Salad, Potato, Pulses, Veg2, VegDish, Fruit, FruitVS, FruitS, FruitM, FruitL, FruitVL, FruitFrzTin, FruitDried, FruitDish, FruitJuice | Ffrwythau a llysiau | Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn faint o wahanol fathau o ffrwythau a llysiau a fwytodd yr ymatebydd ddoe. Y bwriad yw asesu faint o ffrwythau a llysiau sy'n cael eu bwyta yng nghyd-destun rhaglen '5 y dydd'.<br><br>Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau bywyd iach (gan gynnwys bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd) yn ddangosydd cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd ymysg pethau eraill. |
| DnNow, DnOcc, DnEv, DnCond | Yfed alcohol | Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn a yw'r ymatebydd yn yfed alcohol. Mae'r cwestiynau ynghylch alcohol yn gwestiynau safonol sy'n cael eu gofyn mewn nifer o arolygon iechyd hirdymor, fel Arolwg Iechyd Lloegr. Mae hyn yn caniatáu monitro lefelau cyfnewidiol o yfed alcohol ar draws poblogaeth y DU.<br><br>Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau bywyd iach (gan gynnwys peidio ag yfed mwy na'r canllawiau sy'n cael eu hargymell) yn ddangosydd cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Defnyddir y cwestiynau hyn (ynghyd â chwestiynau eraill am yfed |

| | | |
|---|---|---|
| | | alcohol isod) i fesur y dangosydd hwn.<br><br>Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd ymysg pethau eraill. |
| DnFreq,<br>Dn7d,<br>Dn7dN,<br>DnSame,<br>Dn7dMost,<br>DnType,<br>DnBrMeas,<br>DnBrHalf,<br>DnBrSmC,<br>DnBrLgC,<br>DnBrBot,<br>DnStBrMeas,<br>DnStBrHalf,<br>DnStBrSmC,<br>DnStBrLgC,<br>DnStBrBot,<br>DnSpir,<br>DnSher,<br>DnWineMeas,<br>DnWineBot,<br>DnWineLgG,<br>DnWineStG,<br>DnWineSmG,<br>DnApMeas,<br>DnApSmC,<br>DnApStBot,<br>AnApLgBot, | Yfed alcohol - y 7 diwrnod diwethaf | Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn faint o wahanol fathau o alcohol a yfodd yr ymatebydd yn y 7 diwrnod diwethaf. Mae'n ddefnyddiol gofyn am y 7 diwrnod diwethaf gan ei fod yn gymharol hawdd i ymatebwyr gofio cyfnod mor ddiweddar yn gywir. Mae angen set fanwl o gwestiynau i fesur yr yfed yn gywir. |

| | | |
|---|---|---|
| DnOthTyp1, DnOthAmt1, DnOth1, DnOthTyp2, DnOthAmt2, DnOth2, DnOthTyp3, DnOthAmt3 | | |
| DnOftBr, DnUBrMeas, DnUBrHalf, DnUBrSmC, DnUBrLgC, DnUBrBot, DnOftStBr, DnUStBrMeas, DnUStBrHalf, DnUStBrSmC, DnUStBrLgC, DnUStBrBot, DnOftSpir, DnUSpir, DnOftSher, DnUSher, DnOftWine, DnUWine, DnUWineMeas, DnOftApop, DnApopMeas, DnUApopSmC, DnUApopStBot, DnUApopLgBot | Yfed alcohol - arferion y 12 mis diwethaf | Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn faint o wahanol fathau o alcohol a yfodd yr ymatebydd fel rheol yn **y 12 mis diwethaf .** Mae'n ddefnyddiol cael hunanasesiad o arferion yfed cyffredinol dros gyfnod hwy na'r 7 diwrnod diwethaf. |

| | | |
|---|---|---|
| Smoke, SmQuitTry, SmQuitWant, SmQuitTm, SmAge, EcigEv, EcigNow, EcigOft, ECigAge, EmEcigFirst, EcigReas, SmExp, EcigSee | Smygu a defnyddio e-sigarét | Mae'r cwestiynau hyn yn holi am arferion smygu.<br><br>Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau bywyd iach (gan gynnwys peidio smygu) yn ddangosydd cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd ymysg pethau eraill.<br><br>Mae'r cwestiynau hefyd yn holi am ddefnydd o e-sigaréts - mae'r maes hwn yn datblygu ac fe fydd yr wybodaeth o gymorth i fonitro a gwella dealltwriaeth o'u defnydd. |
| Walk, WalkTime, WalkPace, WalkSweat, ModAct, ModActTime, VigAct, VigActTime | Gweithgarwch Corfforol | Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn am wahanol fathau o weithgarwch corfforol - cerdded, gweithgarwch cymedrol a gweithgarwch egnïol yn y 7 diwrnod diwethaf .<br><br>Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau bywyd iach (gan gynnwys ymarfer corff yn rheolaidd) yn ddangosydd cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd ymysg pethau eraill. |
| AtFrqBke, AtFrqWalk | Teithio Llesol | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod a yw pobl yn cerdded neu'n beicio o le i le, (ee i fynd i'r gwaith).<br><br>Defnyddir y canlyniadau i fonitro'r cynnydd yn erbyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n annog pobl i gerdded/beicio fel rhan o'u bywyd bob dydd, ee oedolion yn teithio i'r gwaith neu blant yn teithio i'r ysgol. |
| WgOverSat, EdOverSat, HlthOverSat | Boddhad cyffredinol gyda | Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn clywed barn gyffredinol pobl am Lywodraeth Cymru, a gwasanaethau addysg ac iechyd yng Nghymru. Mae gwasanaethau addysg ac iechyd yn cael sylw gan mai dyma ddau o'r cyfrifoldebau mwyaf i gael eu datganoli i Lywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru a gwasanaethau addysg ac iechyd yng Nghymru | Daw'r cwestiynau o Arolwg Cymdeithasol Ewrop, arolwg mawr sydd wedi bod yn cael ei gynnal ar draws Ewrop ers 2002. Mae hynny'n golygu bod modd cymharu canlyniadau Cymru (o'r Arolwg Cenedlaethol) gyda rhai dros 30 o wledydd eraill o bob cwr o Ewrop. |
| ADHol, ADDec, ADIns, ADMon, ADFur, FinBilCredNP, ADRep, ADSelf, ADHeat | Amddifadedd materol a chyllid cartrefi - set graidd | Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn deall a yw pobl yn medru fforddio talu am nwyddau a gweithgareddau o ddydd i ddydd. Gofynnir cyfres fer o gwestiynau i bob ymatebydd heblaw'r pensiynwyr, ynghyd â phensiynwyr sy'n warcheidwaid plant (er mwyn cyfrifo'r mesur amddifadedd plant). Os yw eu hatebion yn awgrymu eu bod ar y ffin rhwng bod yn ddifreintiedig neu beidio, gofynnir gweddill y gyfres o gwestiynau iddynt. Y bwriad yw cyflymu'r cyfweliad ac atal yr ymatebydd rhag diflasu. Daw'r cwestiynau o'r Arolwg o Adnoddau Teulu. Gellir dadansoddi'r canlyniadau'n unigol, ond maent wedi'u cynnwys yn bennaf er mwyn medru cyfrifo'r mesur amddifadedd materol mewn cartrefi, y gellir ei ddefnyddio wedyn i ddadansoddi canlyniadau eraill yr arolwg.<br><br>Mae Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru yn rhoi fframwaith ar gyfer gwella canlyniadau cartrefi incwm isel Cymru. Y nod yw lleihau tlodi, yn arbennig y tlodi parhaus ymysg rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn mynd yn dlawd. Un ffordd o fesur tlodi yw gofyn cwestiynau am amddifadedd materol. Mae'r cwestiynau amddifadedd materol wedi'u llunio i weld canlyniadau tlodi tymor hir ar gartrefi, yn hytrach na straen ariannol tymor byr.<br><br>Bydd gwybodaeth ynghylch sut mae pobl yn dygymod gyda'u dyledion/ymrwymiadau ariannol yn cael ei defnyddio i weithredu i helpu pobl mewn dyled. Er enghraifft, gweld sut y gellid hyrwyddo cyngor ar ddyled yn well i'r rhai sy'n debyg o'i angen.<br><br>Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio i ddadansoddi canlyniadau eraill yr arolwg ymhellach. Er enghraifft, er enghraifft, a oes gan bobl ddifreintiedig farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus na grwpiau eraill? |
| OACook, | Amddifadedd | Gofynnir cyfres arall o gwestiynau ynghylch amddifadedd i bensiynwyr. Y rheswm am hyn yw |

| | | |
|---|---|---|
| OAHome, OADamp, OAWarm, FinBillCredP, OATaxi, OAHair, OAFrnd, OACookNt, OAHomeNt, OADampNt, OAWarmNt, OATaxiNt, OAHairNt, OAFrndNt, OAMeal, OAOut, OAHol, OAHeat, OAPhon, OACoat, OAExpns, OAHowPy, MealNt, OutNt, HolNt, HeatNt, PhonNt, CoatNt | materol pensiynwyr mewn cartrefi | bod pensiynwyr yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oes angen yr eitemau nad ydynt eu perchen pan fyddwn yn gofyn y cwestiynau safonol ynghylch amddifadedd. Datblygwyd y cwestiynau ynghylch amddifadedd pensiynwyr i sicrhau cywirdeb wrth fesur amddifadedd y grŵp hwn o bobl.<br><br>Mae'r rhesymeg a'r dull o ofyn y cwestiynau yr un fath â'r cwestiynau safonol (uchod). |
| CDCoat, CDEqp, CDCel, CDAct, | Amddifadedd materol plant | Gofynnir cyfres bellach o gwestiynau i rieni/gwarcheidwaid plant (dan 16 oed neu 16-19 mewn addysg llawnamser).<br><br>Mae'r rhesymeg a'r dull o ofyn y cwestiynau yr un fath â'r cwestiynau safonol (uchod). |

| | | |
|---|---|---|
| CDLes, CDVeg, CDBed, CDTea, CDepPlay, CDTrp | | |
| FinDebtAdv | Cyngor ar ddyledion | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod a yw pobl yn medru cyrraedd at wasanaethau cynghori ar ddyledion pan fo angen. Bydd y canlyniadau o ddefnydd i Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru. Er enghraifft, gweld sut y gellid hyrwyddo cyngor ar ddyled yn well i'r rhai sy'n debyg o'i angen. |
| FPEv2d, FPSubMeal, FPFoodB | Tlodi bwyd a defnyddio banc bwyd | Fe gafodd y cwestiynau hyn eu cynnwys er mwyn dysgu am dlodi bwyd yng Nghymru. Ceir adroddiadau bod tlodi bwyd a defnydd o fanc bwyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ond nid oes tystiolaeth gadarn, genedlaethol ar gael am y defnydd o fanciau bwyd.<br><br>Bydd y canlyniadau yn rhoi llinell sylfaen ac yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru wrth roi sylw i dlodi bwyd. |
| Visit12mAct, VisitAct, VisitNo, VisitMain, VisitTime4w, VisitExercise4w, VisitType4w, VisitDist, VisitWhy, VisitMoney, Visit4wBar, Visit12mBar | Hamdden awyr agored | Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ddeall pa fath o weithgareddau hamdden awyr agored mae pobl yn eu mwynhau, a ble yr hoffent ymweld. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn darparu'r cyfleusterau cywir yn y mannau cywir.<br><br>Mae gofyn am lefelau gweithgarwch corfforol a faint o arian sy'n cael ei wario yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall manteision hamdden awyr agored i'r economi ac i iechyd pobl Cymru, ac yn helpu i fonitro cynnydd mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| BioChange, BioFutChange, BioFutConcern | Bioamrywiaeth | Mae'n bwysig gwybod a yw pobl yn gweld unrhyw newidiadau yn eu bywyd gwyllt lleol, er mwyn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall barn y cyhoedd am faterion bioamrywiaeth. Defnyddir y canfyddiadau hefyd i fonitro targedau ar gyfer Bioamrywiaeth Ewrop 2020. |

| | | |
|---|---|---|
| CliChanCon, CliChanYN, CliChanCause | Newid yn yr hinsawdd | Mae'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei drafod yn aml yn y cyfryngau, ac fe hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru wybod beth yw barn pobl Cymru. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio wrth lunio cyngor a pholisïau ar y testun hwn. |
| EnvHelp | Gweithredu amgylcheddol | Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru wybod pa fath o gamau mae pobl yn eu cymryd i helpu i ddiogelu'r amgylchedd er mwyn gweld pa rai sy'n hawdd eu gwneud ac a yw gwahanol grwpiau o bobl yn ffafrio camau penodol o gymharu ag eraill. |
| FloRiskProp, FloRiskComm, FlorRiskWal, FloRiskOrg, FloRiskHome | Perygl o lifogydd | Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru wybod mwy am ymwybyddiaeth a barn y cyhoedd am lifogydd, er mwyn helpu gyda'i waith ar Ymwybyddiaeth Perygl Llifogydd. |
| LibVisit, LibSat | Llyfrgelloedd | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod am brofiadau pobl o ddefnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Gellir dadansoddi'r canlyniadau yn ôl ardal ddaearyddol, er mwyn gweld os yw'r defnydd yn amrywio. Er enghraifft, a yw'r defnydd yn uwch neu'n is mewn ardaloedd mwy difreintiedig neu gartrefi sy'n dioddef amddifadedd materol.<br><br>Bydd y canlyniadau hefyd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd polisi Cyfuno: Trechu Tlodi Trwy Ddiwylliant Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o gyfleusterau diwylliannol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. |
| ArtsVisit, ArtsXVisit, ArtsPart, HeritVisit, HeritSat, HeritXVisit, MusVisit, MusSat, MusXVisit | Y celfyddydau, amgueddfeydd a threftadaeth | Hoffai Llywodraeth Cymru wybod am brofiadau pobl o ymweld â digwyddiadau celfyddydol, amgueddfeydd a mannau hanesyddol Cymru. Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi yn ôl ardal ddaearyddol er mwyn gweld os yw'r defnydd yn amrywio. Er enghraifft, a yw'r defnydd yn uwch neu'n is mewn ardaloedd mwy difreintiedig.<br><br>Bydd y canlyniadau hefyd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd polisi Cyfuno: Trechu Tlodi Trwy Ddiwylliant Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o gyfleusterau diwylliannol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Maent hefyd yn debyg o gael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |

| | | |
|---|---|---|
| SWFilter, SWFilterLD | Cyfranogi mewn chwaraeon - cwestiynau hidlo | Gofynnir y cwestiynau hyn i ymatebwyr 75 oed a throsodd, neu'r rhai 60 oed a throsodd sydd â chyflwr cyfyngus hirdymor, er mwyn gweld a ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu a fyddent yn hoffi gwneud hynny.<br><br>Mae data arolygon blaenorol yn awgrymu bod cyfranogaeth gan y grwpiau hyn yn debyg o fod yn is na'r cyfartaledd. Os atebir yn negyddol, gellir symud ymlaen i'r adran CASI yn hytrach nag ateb y gyfres lawn o gwestiynau chwaraeon, gan ysgafnhau'r baich ar yr ymatebwyr hynny. |
| OAct4w, OAct4wN, OActMore, OPur4w, OPur4wN, OPurMore, IAct4w, IAct4wDan, IAct4wGym, IAct4wMar, IAct4wN, IActMore, IActMoreDan, IActMorGym, IAct4wMar | Cyfranogi mewn chwaraeon | Hoffai Chwaraeon Cymru wybod mwy am y chwaraeon y mae pobl Cymru'n cymryd rhan ynddynt, a pha mor aml maent yn gwneud hynny. Maent hefyd am wybod am unrhyw alw heb ei fodloni o ran chwaraeon.<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio gan Chwaraeon Cymru i fonitro tueddiadau chwaraeon yng Nghymru. Byddant hefyd yn cael eu dadansoddi i weld a yw'r lefelau cyfranogi yn wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i lunio polisïau chwaraeon, iechyd ac addysg, ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn chwaraeon.<br><br>Mae data'r arolwg hefyd yn cael eu defnyddio gan bartneriaid eraill, fel awdurdodau lleol a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon. |
| ClubMem, ClubNum, ClubName, ClubPur1, ClubPur2, ClubPur3, ClubSport1, ClubSport2, ClubSport3, | Aelodaeth o glwb chwaraeon | Mae'r cwestiynau hyn yn casglu rhagor o fanylion ynghylch cyfranogiad pobl mewn chwaraeon. Maent yn edrych ar gyfranogaeth mewn chwaraeon clwb, gan gynnwys y mathau o weithgarwch yr oedd pobl yn ymwneud â nhw ac am faint o amser, ac a oedd ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi. Mae hyn yn helpu Chwaraeon Cymru i ddeall pa chwaraeon sy'n cael eu cynnig i bobl Cymru.<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio gan Chwaraeon Cymru i fonitro tueddiadau chwaraeon yng Nghymru. Byddant hefyd yn cael eu dadansoddi i weld a yw'r lefelau cyfranogi yn wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i lunio |

| | | |
|---|---|---|
| ClubPart1, ClubPart2, ClubPart3, ClubPartSport1, ClubPartSport2, ClubPartSport3, ClubMemTyp1, ClubMemTyp2, ClubMemTyp3, ClubFreqCoa1, ClubFreqCoa2, ClubFreqCoa3, ClubFreqCoaWL1, ClubFreqCoaWL2, ClubFreqCoaWL3 | | polisïau chwaraeon, iechyd ac addysg, ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn chwaraeon.<br><br>Mae data'r arolwg hefyd yn cael eu defnyddio gan bartneriaid eraill, fel awdurdodau lleol a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon. |
| SportMore | Annog cyfranogaeth mewn chwaraeon yn y dyfodol | Mae'r cwestiwn hwn yn helpu Chwaraeon Cymru i ddeall yr hyn sy'n ysgogi oedolion Cymru i gymryd rhan mewn chwaraeon, a'r rhwystrau. Gellir eu dadansoddi i weld os oes amrywiaeth rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio gan Chwaraeon Cymru i annog cyfranogiad mewn chwaraeon. Byddant yn cael eu defnyddio i helpu i lunio polisïau chwaraeon, iechyd ac addysg, ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn chwaraeon<br><br>Mae data'r arolwg hefyd yn cael eu defnyddio gan bartneriaid eraill, fel awdurdodau lleol a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon. |
| SportSchEnj, SportSchReg | Profiad o chwaraeon mewn ysgolion | Gofynnir y cwestiynau hyn i edrych ar y berthynas rhwng profiadau o chwaraeon mewn ysgolion a chyfranogaeth mewn chwaraeon ar hyn o bryd. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio wrth lunio polisi addysg a chwaraeon. |

| | | |
|---|---|---|
| SportVolClub, SportVolDri, SportVolClub1, SportVolClub2, SportVolClubO. SportVolAct1, SportVolAct2, SportVolAge, SportVolFreq, SportVolHrs, SportVolCoa, SportVolCoaWL | Gwirfoddoli mewn chwaraeon | Hoffai Chwaraeon Cymru wybod a yw pobl wedi helpu i gynnal gweithgareddau chwaraeon yn wirfoddol. Bydd y canlyniadau'n rhoi gwybodaeth am y gweithlu sy'n ofynnol i annog cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru.<br><br>Mae data'r arolwg hefyd yn cael eu defnyddio gan bartneriaid eraill, fel awdurdodau lleol a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon. |
| SCAccept, XSCAcept | Derbyn CASI | Gofynnir y cwestiynau hyn i weld os yw'r ymatebydd yn hapus i barhau gyda'r cwestiynau y mae'n eu hateb ei hun (Computer Assisted Self Interviewing, CASI) . Gofynnir amrywiol gwestiynau sensitif yn y ffordd hon, er mwyn i'r ymatebydd deimlo'n fwy cysurus yn eu hateb yn hytrach na gorfod dweud eu hatebion yn uchel i'r cyfwelydd eu cofnodi. Mae hyn hefyd yn helpu i wella ansawdd y data sy'n cael eu casglu. |
| InPrac, CASIPra1, CASIPra3, CASIPra5, EndPrac | Hyfforddiant CASI | Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn rhoi cyfle i'r ymatebydd ymarfer defnyddio'r cyfrifiadur cyn ateb cwestiynau'r arolwg. |
| WwOpt, WwUseful, WwRelaxed, WwIntPeople, WwEnergy, WwProbs, WwThink, | Lles meddyliol - Graddfa lles meddyliol Warwick-Edinburgh - CASI | Mae'r cwestiynau hyn yn mesur lles meddyliol. Mae lles meddyliol yn elfen sylfaenol o iechyd a llesiant sy'n effeithio ar sawl agwedd o fywyd. Bydd gofyn y cwestiynau hyn yn yr arolwg yn caniatáu i'r berthynas rhwng lles meddyliol ac agweddau eraill o iechyd gael eu harchwilio ymhellach.<br><br>Hefyd mae diddordeb yn y gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau a meysydd. Mae strategaethau Llywodraeth Cymru ar iechyd y cyhoedd (fel 'Ein Dyfodol Iach', 'Canlyniadau |

| | | |
|---|---|---|
| WwGood, WwClose, WwConfident, WwDecisive, WwLoved, WwIntThings, WwCheerful | | Iechyd Tecach i Bawb') yn cael eu monitro gan ddefnyddio gwybodaeth yr arolwg ar les meddyliol, ac mae wedi'i gynnig fel dangosydd cenedlaethol ar gyfer 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'.<br><br>Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd ymysg pethau eraill. |
| SCMatter, SCControl, SCResp, SCSafe | Llesiant (gofal cymdeithasol) – CASI | Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys oherwydd hoffai Llywodraeth Cymru ddysgu mwy am lesiant pobl Cymru.<br><br>Bydd y cwestiynau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi i'w defnyddio gan wasanaethau gofal cymdeithasol i weld a yw rhai agweddau ar lesiant yn wanach i'r rhai sy'n defnyddio gofal cymdeithasol na phobl eraill Cymru. |
| LoneEmp, LoneMiss, LoneRej, LoneRely, LoneTrust, LoneClose | Llesiant - unigrwydd - CASI | Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys oherwydd hoffai Llywodraeth Cymru ddysgu mwy am lesiant pobl Cymru. Mae cael digon o gefnogaeth gymdeithasol ac emosiynol yn agweddau pwysig ar lesiant.<br><br>Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| SexOrient Religion | Cyfeiriadedd rhywiol; crefydd - CASI | Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, oes gan wahanol grwpiau o bobl wahanol farn am wasanaethau cyhoeddus?<br><br>Nid yw'r cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio i adnabod unigolion mewn unrhyw fodd. |
| | Diwedd CASI | Hysbysu'r ymatebydd bod y rhan CASI wedi dod i ben ac y dylai roi'r gliniadur yn ôl i'r cyfwelydd. |
| Recontact | Caniatâd i gysylltu eto | Mae'r cwestiwn hwn wedi'i gynnwys er mwyn gweld os yw'r ymatebydd yn fodlon i ni ail-gysylltu yn y dyfodol. Ar sail yr atebion i gwestiynau eraill yr arolwg, efallai y bydd gwahoddiad i |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfranogi mewn prosiectau ymchwil dilynol. |
| ReCall2 | Gwirio | Byddwn yn cysylltu eto gydag is-set o ymatebwyr er mwyn cynnal cyfweliad byr dros y ffôn i sicrhau bod y prif gyfweliad wedi'i gynnal yn gywir. Mae'r cwestiwn hwn yn cadarnhau eu bod yn fodlon i ni gysylltu â nhw at y diben hwn. |
| ChkName, ChkAdd, GiveTel | Cyfwelydd i wirio'r wybodaeth | Mae'r cwestiwn hwn wedi'i gynnwys er mwyn medru cysylltu â'r ymatebydd ar gyfer gwaith dilynol a/neu wirio. |
| Email | E-bost | Bydd rhai ymatebwyr am i ni rannu canlyniadau'r arolwg gyda nhw, mae hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw gael gwybod pan fo'r canlyniadau'n cael eu rhyddhau. Nid yw'r cyfeiriad e-bost yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth nad yw'n gysylltiedig gyda'r arolwg. |